Cab Diogel (2)

Pecyn Adnoddau i hyrwyddo defnyddio tacsis trwyddedig

Cynnwys:

Pennod 1 Datganiad o bwrpas – nodau ac amcanion y Prosiect

Pennod 2 Pethau i'w hystyried cyn rhedeg y Prosiect

Pennod 3 Rhedeg Prosiect Cab Diogel (2)

Atodiad 1 Copi o'r poster a ddefnyddiwyd gan y Prosiect Peilot

Atodiad 2 Copi o'r Mat Cwrw a ddefnyddiwyd gan y Prosiect Peilot

Atodiad 3 Llythyr at weithredwyr cerbydau yn eu gwahodd i gymryd rhan

Atodiad 4 Telerau ac Amodau ar gyfer gweithredu'r Cynllun

Pennod 1

Rhagarweiniad – nodau ac amcanion y Prosiect

Her Iechyd Cymru

1. Dewiswyd y prif themâu sy'n gysylltiedig â Her Iechyd Cymru oherwydd mai dyma'r materion sy'n cael eu hystyried i fod y rhai sy'n cyfrannu fwyaf at waeledd iechyd y mae modd ei osgoi. Fodd bynnag, nid ydynt yn gynhwysol nac yn gynhwysfawr, ac mae'r her yn ymestyn i gynnwys ymyriadau eraill sy'n hybu a gwella iechyd a lles. Nod yr ymyriad hwn yw lleihau'r peryglon i ddiogelwch a lles personol pobl sy'n defnyddio tacsis a cherbydau llog preifat drwy hyrwyddo'r defnydd o gerbydau a gyrwyr trwyddedig. Wrth wneud hyn mae'n ceisio lleihau'r perygl i bobl o ddioddef ymosodiadau a lladrata gan ddefnyddwyr cerbydau eraill tra'n pwysleisio mai defnyddio cerbydau trwyddedig yw'r opsiwn mwyaf diogel. Felly, mae'r ymyriad yn dyheu am yr un pethau â Her Iechyd Cymru.

2. Mae teithwyr mewn tacsis a cherbydau llog preifat yn agored i niwed. Maen nhw'n dod i mewn i'r tacsi ac yn gofyn am gael mynd i rywle, ac o hynny ymlaen yn dibynnu ar y gyrrwr i'w cludo yno'n ddiogel. Fodd bynnag, ceir peryglon cynhenid mewn system o'r fath. Gallai gyrrwr y cerbyd ymosod ar y teithiwr neu ddwyn rhywbeth ganddo a'i ollwng wedyn yn rhywle anghyfarwydd. Ceir peryglon clir o anafiadau corfforol, o drosglwyddo heintiau rhywiol ac o feichiogi'n ddieisiau, yn ogystal â'r effaith andwyol y mae ymosodiadau o'r fath yn ei gael ar les a iechyd meddwl y teithiwr.

3. Mae busnesau tacsi a cherbydau llog preifat wedi eu rheoli gan system drwyddedu lem. Rhaid i'r cerbydau a'r gyrwyr gael eu trwyddedu gan yr awdurdod lleol, a rhaid i'r gyrrwr fodloni'r awdurdod lleol ei fod yn berson ffit a phriodol i ddal trwydded tra bo'n rhaid i'r cerbyd hefyd basio profion diogelwch llym. Mae'r profion hyn wedi eu dyfeisio i sicrhau diogelwch y teithwyr sy'n defnyddio'r cerbydau. Ni roddir trwydded i unigolyn sy'n gwneud cais am drwydded tacsi neu gerbyd llog preifat sydd ag euogfarn am drosedd yn ymwneud ag achosi niwed corfforol gwirioneddol, unrhyw fath o ymosodiad rhywiol neu drosedd yn ymwneud â thor-ymddiriedaeth fel lladrata, ar y sail nad yw ef neu hi yn berson ffit a phriodol i ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd yn y fath rôl.

4. Er y dylai'r system drwyddedu reoli pobl sy'n gweithredu fel gyrwyr tacsis neu gerbyd llog preifat, nid yw'n atal pobl sy'n dewis bod y tu allan i'r system. Yn 2003, lansiodd Awdurdod Llundain Fwyaf a'r heddlu ymgyrch yn erbyn cerbydau minicab anghyfreithlon yng nghanol Llundain, gan arestio 77 o bobl mewn pedwar diwrnod. Ers Mehefin 2002, mae'r heddlu yng nghanol Llundain wedi arestio 1500 o bobl i gyd am redeg cerbydau minicab heb drwydded, gan gynnwys 600 am dowtio am fusnes ers Ebrill 2004[1]. Hefyd, fel rhan o ymgyrch yn 2005, roedd gan dros hanner y gyrwyr cerbydau minicab a arestiwyd gofnod troseddol, gan gynnwys euogfarnau am dreisio

[1] Ffigurau Swyddfa Maer Llundain.

ac ymosod ar bobl. Yn ôl ffigurau o Weriniaeth Iwerddon, mae ymosodiadau difrifol ar deithwyr gan yrwyr tacsis wedi cynyddu'n ddramatig ers i'r diwydiant gael ei ddadreoleiddio 3 blynedd yn ôl. Mae troseddau eraill yn cynnwys codi gormod a delio mewn cyffuriau[2]. Mae Scotland Yard yn ofni y gallai'r nifer gwirioneddol o ymosodiadau ar deithwyr fod bum gwaith yn uwch na'r ffigur swyddogol, oherwydd nad yw pobl yn ryportio'r digwyddiadau hyn.

5. Mae'r posibilrwydd o gymryd risg fel defnyddio cerbyd minicab heb drwydded yn fwy fyth ar ôl yfed alcohol. Dywedodd merched ifanc rhwng 18 a 24 oed wrth ymchwilwyr eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio cerbyd minicab heb drwydded pan oeddent wedi meddwi, er eu bod yn ymwybodol o'r risg yr oeddent yn ei chymryd[3].

6. Dyfeisiwyd y prosiect hwn i godi ymwybyddiaeth ymhlith darpar deithwyr mewn tacsis a cherbydau llog preifat o beryglon defnyddio cerbydau heb eu trwyddedu. Mae'n gwneud hyn drwy anfon rhifau ffôn tri chwmni tacsi trwyddedig drwy neges destun at ffôn symudol rhywun sydd angen tacsi arnynt, sydd yna'n cysylltu â rhif swyddogol. Mae'r system yn gweithio drwy ddod o hyd i'r person a anfonodd y neges destun drwy signal eu ffôn symudol, cyn anfon ateb testun yn awtomatig atynt gyda rhifau ffôn y cwmnïau tacsi agosaf atynt. Gall yr unigolyn yna ffonio unrhyw un o'r rhifau ffôn a defnyddio tacsi trwyddedig yn lle cerbyd minicab heb ei drwyddedu. Felly, mae'r prosiect yn rhoi gwybodaeth i gefnogi'r syniad o wneud dewis 'diogel' a, thrwy wneud hynny yn lleihau'r risg o ymosodiad neu ladrata, yn atal anafiadau a'r risg o drosglwyddo afiechydon rhywiol ac yn hybu lles a iechyd. Drwy hyn, mae'r prosiect yn cefnogi amcanion Her Iechyd Cymru.

[2] NTDU Gweriniaeth Iwerddon 2005. Wedi ei ddyfynnu ym mhapur newydd yr Irish Independent.

[3] Engineer R, Phillips A, Thompson J a Nicholls J. Astudiaeth Ymchwil 262 gan y Swyddfa Gartref**.** Drunk and disorderly: a qualitative study of binge drinking among 18- to 24-year-olds

Pennod 2

Cab Diogel – Pethau i'w hystyried cyn rhedeg Prosiect

1. Ystyriaethau cychwynnol

Mae angen rhoi sylw i'r ystyriaethau cychwynnol ar gyfer y prosiect hwn, gan gynnwys;

- Pwy yw'r grŵp targed?
- A fydd effaith y prosiect yn cael y canlyniad sy'n ddymunol? h.y. yn lleihau'r defnydd o gerbydau minicab heb eu trwyddedu a'r peryglon a allai ddod o'u defnyddio
- Sut y bwriedir cyrraedd y grŵp targed?
- Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y prosiect?
- Sut y bydd y prosiect yn cael ei werthuso?
- Sut y bydd y prosiect yn rhoi gwerth am arian?

2. Y Grŵp Targed

Mae unrhyw unigolyn sy'n defnyddio cerbyd minicab heb ei drwyddedu efallai'n peryglu ei hun. Y grŵp targed yn yr achos hwn yw'r holl unigolion hynny sy'n debygol o ddefnyddio tacsis a hefyd yn defnyddio ffonau symudol ac sy'n gyfarwydd ac yn gyffyrddus â'r syniad o anfon a derbyn gwybodaeth drwy negeseuon testun.

3. Cyflawni'r canlyniad sy'n ddymunol

Mae'r ffactorau sy'n arwain at ddefnyddio cerbydau minicab heb eu trwyddedu yn cynnwys:

- Diffyg ymwybyddiaeth o gerbydau llog preifat a thacsis trwyddedig
- Tybio bod 'niferoedd yn ddiogel' os ydynt eisoes yn ymwybodol o'r risg
- Yfed yn ormodol a defnyddio synnwyr cyffredin gwael
- Methu â chynllunio ar gyfer diogelwch
- Diffyg gwybodaeth leol am renciau tacsis a rhifau ffôn cwmnïau llog preifat, ac yn y blaen
- Yr uchod i gyd hefo'i gilydd.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysol nac yn gynhwysfawr.

Mae angen rhoi sylw i gymaint o'r ffactorau hyn â phosibl i sicrhau bod nod yr ymyriad yn cael ei gwrdd yn y pen draw.

4. Cyrraedd y Grŵp Targed

Mae unrhyw un a allai ddefnyddio tacsi yn ddefnyddiwr posibl o gerbyd minicab heb ei drwyddedu. Gallai'r grŵp targed hefyd ddefnyddio cerbydau minicab heb eu trwyddedu fel unigolion neu mewn grwpiau i symud o un lle i'r llall. Awgrymir felly y dylid hyrwyddo'r prosiect drwy ei gyflwyno yn yr ardaloedd hynny lle mae pobl sy'n debygol o ddefnyddio tacsis yn byw, naill ai ar gyfer eu haddysg, cyflogaeth neu i gymdeithasu – fel tafarndai, clybiau, colegau addysg bellach a chanolfannau siopa ac yn y blaen.

Gellir hefyd dangos y posteri mewn unrhyw adeiladau gan yr awdurdod lleol, fel ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a swyddfeydd y cyngor.

Gan fod unigolion neu grwpiau sydd allan yn yfed yn aml yn defnyddio tacsis i symud o un lle i'r llall, neu i fynd adref ar ddiwedd y noson, roedd y prosiect peilot hefyd yn hysbysebu'r rhifau ffôn trwyddedig ar fatiau cwrw a oedd yna'n cael eu dosbarthu mewn tafarndai a chlybiau lleol. Roedd hyn yn golygu bod y rhifau ar gael i aelodau o'r grŵp targed ar yr adeg yr oeddent yn fwyaf tebygol o fod yn chwilio am dacsis a phan oedd eu synnwyr cyffredin yn fwyaf tebygol o fod yn llai ar ôl yfed alcohol. Golygai hefyd y gallent ffonio am dacsi yn ddiogel o'r dafarn neu'r clwb, yn lle sefyll ar y stryd lle gallent gael eu temtio i gymryd cerbyd heb ei drwyddedu tra'n aros am un trwyddedig ac, felly, mwy diogel.

5. Pwy yw partneriaid allweddol y prosiect?

Y partneriaid allweddol ar gyfer y prosiect peilot oedd adran iechyd yr amgylchedd yr awdurdod lleol (timau trwyddedu), y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r diwydiant tacsis trwyddedig. Gellid hefyd cynnwys yr heddlu lleol, drwy'r Swyddog Diogelwch Cymunedol, yn y bartneriaeth.

6. Sut y bydd y prosiect yn cael ei werthuso?

Nod y prosiect hwn yw codi ymwybyddiaeth y grŵp targed o beryglon defnyddio tacsis a cherbydau llog preifat sydd heb eu trwyddedu. Er mwyn ei werthuso, rhaid cael data ar y wybodaeth sydd gan y grŵp targed cyn y prosiect, ac ar ôl y prosiect, er mwyn gallu cymharu'r canlyniadau i weld a ydyw'r ymwybyddiaeth o risg wedi cynyddu.

Gellid cymharu nifer y digwyddiadau a ryportiwyd i'r Heddlu cyn yr ymgyrch ymwybyddiaeth, a'r nifer yn dilyn yr ymgyrch, ond mae peryglon gyda defnyddio'r math hwn o fesur gwerthuso. Ni fydd gan bob heddlu ddata digon soffistigedig ar ddigwyddiadau a ryportiwyd i ddarparu ffigurau am nifer yr achosion o ladrata, yr ymosodiadau – rhywiol neu beidio – neu'r achosion lle codwyd gormod ar deithwyr, i wneud cymhariaeth cyn ac ôl-brosiect. Yn ogystal, mae'r Heddlu'n bryderus bod llawer iawn o bobl yn dewis peidio â ryportio'r troseddau hyn, ac nad yw'r ffigurau felly yn adlewyrchiad gwirioneddol o'r sefyllfa. Os felly, rhaid bod yn ofalus iawn wrth ddefnyddio ffigurau o'r fath i werthuso'r prosiect.

Dylid hefyd nodi bod ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yn aml yn achosi digwyddiadau a ryportiwyd i godi. Nid yw hyn o reidrwydd yn adlewyrchu cynnydd yn nifer y digwyddiadau, ond cynnydd yn ymwybyddiaeth pobl o'r angen i ryportio digwyddiadau o'r fath. Gellid defnyddio cynnydd yn lefel y digwyddiadau a ryportiwyd fel arwydd o lwyddiant yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth, tra'n cofio y gallai'r ffigurau ôl-brosiect am droseddau a ryportiwyd fod yn adlewyrchiad gwirioneddol o'r troseddu yn yr ardal honno, yn hytrach na chynnydd mewn ymddygiad anghyfreithlon, er mwyn tawelu unrhyw ofnau gan y cyhoedd bod lefelau troseddu'n gwaethygu.

Fodd bynnag, gellid hefyd gwerthuso'r prosiect drwy edrych ar nifer y ceisiadau testun yn gofyn am rif ffôn trwyddedig. Bydd hyn yn dangos faint o bobl a ofynnodd am rifau tacsi a hefyd ym mha ardal y mae'r galw mwyaf. Bydd y wybodaeth yma'n ddefnyddiol i ddangos lle mae angen tacsis fwyaf, ac ar ba adegau, oherwydd yn yr ardaloedd hyn y mae cerbydau minicab heb eu trwyddedu yn fwyaf tebygol o fod o gwmpas. Gellir yna

defnyddio'r wybodaeth yma i dargedu camau gorfodi lleol yn erbyn cerbydau sydd heb eu trwyddedu.

7. A fydd y prosiect yn rhoi gwerth am arian?

Mae'r gost i'r heddlu o ymchwilio i droseddau sy'n deillio o ymosod ar deithwyr a ddefnyddiodd dacsis heb eu trwyddedu yn sylweddol. Yn ôl ffigurau gan y Swyddfa Gartref am 2003/04, mae'n costio £31,438 ar gyfartaledd i ymchwilio i drosedd rhywiol, £21,422 i ymchwilio i ddigwyddiad o glwyfo difrifol, a £844 i ymchwilio i honiad o ladrata gan berson[4].

Mae'r gost bersonol i ddioddefwyr yr ymosodiadau hefyd yn sylweddol. Fel y soniwyd eisoes, mae'r troseddau hyn yn cael effaith ddifrifol ar iechyd meddwl y dioddefwyr, ar eu bywyd personol ac ar eu gallu i fyw bywyd llawn. Efallai hefyd y byddant yn dewis gwario ar therapi i'w helpu i ddod dros y digwyddiad, ac ar gostau meddygol pellach gydag ymosodiadau lle cafodd afiechyd rhywiol ei drosglwyddo.

Nid yw'r prosiect hwn yn un drud i'w redeg. Costiodd y prosiect peilot £3,200, arian a ddefnyddiwyd i sefydlu gwasanaeth ymateb testun gyda chwmni masnachol, i gasglu cronfa ddata o gwmnïau tacsis trwyddedig, ac i dalu am drwydded 12 mis i weithredu'r cynllun. Costiodd y gwaith o drefnu lansiad y prosiect, ac o ddylunio ac argraffu'r posteri a'r matiau cwrw ar gyfer y prosiect peilot, tua £2,000.

Unwaith y mae'r prosiect ar ei draed, mae'n talu amdano ei hun. Mae'n costio 50c i aelod o'r grŵp targed i anfon neges destun yn gofyn am rifau tacsi. Y gost weinyddol i'r awdurdod lleol yw 40 ceiniog. Felly, gwneir 'elw' o 10 ceiniog ar bob galwad, elw y gellid ei ddefnyddio i dalu am gyfran o gost y drwydded y flwyddyn ganlynol os yw'r gwasanaeth yn un effeithiol. Unwaith y ceir y drwydded, gellir ei ehangu i gynnwys gwasanaethau eraill.

Yng ngoleuni'r uchod, awgrymir bod y prosiect hwn yn rhoi gwerth am arian yn nhermau buddsoddiad ariannol a lles.

[4] Costau economaidd a chymdeithasol troseddu yn erbyn unigolion a chartrefi 2003/4. Y Swyddfa Gartref htpp://www.crimereduction.gov.uk/statistics39.htm

Pennod 3

Cab Diogel (2) – Rhedeg y Prosiect

Yr ymgyrch

Ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o beryglon defnyddio cerbydau minicab heb eu trwyddedu ac i hyrwyddo defnyddio tacsis trwyddedig a mwy diogel.

Y camau rhagarweiniol

1. Mae angen cryn dipyn o waith paratoi ar gyfer y prosiect hwn, a dylid gwneud hyn mewn da bryd cyn ei lansio. Bydd angen proses gynllunio gychwynnol i benderfynu

    - Pwy yw'r grŵp targed
    - Ym mhle y gellir dod o hyd i'r grŵp targed
    - Pa fathau o ddeunyddiau sydd eu hangen i hyrwyddo'r prosiect, ac ar ba ffurf y dylai'r rhain fod
    - Faint o ddiddordeb sy'n debygol o gael ei ddangos gan y diwydiant tacsis trwyddedig
    - Dyddiad dechrau'r prosiect
    - Y cyhoeddusrwydd cyn dechrau'r prosiect.

2. Mae dewis y grŵp targed yn bwysig. Rhaid i'r grŵp gynnwys unigolion a fyddai eisiau defnyddio tacsis a cherbydau llog preifat, sydd â ffonau symudol ac a fyddai'n gyffyrddus â'r syniad o anfon a derbyn gwybodaeth ar ffurf negeseuon testun, ac y gellid ymgysylltu â nhw. O ystyried y proffil hwn, mae'n debyg mai pobl ifanc fydd y rhain sy'n dod at ei gilydd i gymdeithasu mewn ardaloedd lle mae nifer o ddewisiadau adloniant fel tafarndai, clybiau nos, tai bwyta ac yn y blaen.

3. Bydd yr adeiladau lle byddwch yn ymgysylltu â'r grŵp targed yn dewis eu hunain gan amlaf. Bydd yr adeiladau a ddefnyddir gan y grŵp i gymdeithasu yn cael eu cynnwys, ac eraill megis clybiau hamdden a chwaraeon, colegau addysg bellach a lleoedd fel Neuaddau Preswyl neu Gartrefi Nyrsys. Gellir hefyd cynnwys adeiladau gan yr awdurdod lleol fel ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a chanolfannau talu, neu Siopau Un Stop.

4. Mae'r deunyddiau a ddewisir yn bwysig. Mae ymgyrchoedd posteri yn ddefnyddiol gan eu bod yn gallu cyrraedd nifer fawr o bobl, gan gynnwys ond nid yn unig y grŵp targed. Dylid dangos y posteri yn yr adeiladau hyn, i hysbysebu'r rhifau ffôn a anfonir drwy neges destun at unrhyw un sy'n dymuno derbyn rhif tacsi trwyddedig. Dangosir y poster a ddefnyddiwyd yn y prosiect peilot yn Atodiad 1.

    Roedd y cynllun peilot hefyd yn defnyddio matiau cwrw i hyrwyddo'r prosiect, a ddosbarthwyd wedyn i'r holl adeiladau trwyddedig ac i adeiladau a fyddai'n debygol o gael eu defnyddio gan y grŵp targed. Mae arddull a neges y mat cwrw yr un fath, am resymau cysondeb ac adnabyddiaeth, ag arddull y posteri a

ddefnyddiwyd yn yr ymgyrch. Dangosir copi o'r mat cwrw a ddefnyddiwyd yn Sir Gaerfyrddin gan y prosiect peilot yno, yn Atodiad 2.

5. Mae'n hanfodol bod y diwydiant Cerbydau Llog Preifat a thacsis trwyddedig yn cefnogi'r cynllun cyn y gellir ei gyflwyno. Bydd gan adran drwyddedu'r awdurdod lleol fanylion am yr holl weithredwyr cerbydau llog preifat a thacsis trwyddedig yn ei ardal weinyddol, a gellir anfon llythyr atynt i gyd yn eu gwahodd i gymryd rhan yn y cynllun, ac i roi eu rhifau ffôn i'w cynnwys yn y gronfa ddata o rifau i'w darparu pan dderbynnir ceisiadau testun. Dangosir copi o'r llythyr a ddefnyddiwyd gan y prosiect peilot yn Atodiad 3.

6. Gan gymryd bod y diwydiant tacsis trwyddedig yn cefnogi'r cynllun, gellir yna dewis dyddiad i lansio'r prosiect. Bydd hyn yna'n gyrru'r trefniadau ar gyfer paratoi'r deunyddiau hyrwyddo, fel eu bod yn cael eu cynhyrchu a'u dangos i gyd-ddigwydd â dechrau'r prosiect. Mae hefyd yn hanfodol bod y gronfa ddata o rifau ffôn gweithredwyr cerbydau sy'n cyfrannu at y prosiect yn cael ei chynhyrchu cyn y dyddiad lansio, i ddechrau drwy anfon manylion ar ffurf excel drwy e-bost at y cwmni i'w rhoi ar y meddalwedd, sydd yna'n cael eu dychwelyd i'r awdurdod lleol sy'n cymryd drosodd yn llawn ac yn diwygio ei gofnodion lle bo angen. Os bydd gweithredwr tacsi trwyddedig yn cael ei atal, gellir diwygio'r gronfa ddata ar unwaith i adlewyrchu'r newid.

7. Rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu pa rif i'w ddefnyddio. Nid oes raid i'r rhif fod yn un sy'n cael ei ddefnyddio'n barod, ond rhaid iddo fod yn 5 digid. Rhaid trafod pa neges destun sydd i'w defnyddio gyda'r cwmni – defnyddiwyd y gair 'cab' gan y prosiect peilot. Eto, mater i'r partneriaid yw penderfynu ar y gair hwn – nid oes raid iddo fod yn air o gwbl.

Hyrwyddo'r Cynllun

8. Cyn dechrau'r cynllun dylai'r partneriaid sy'n cymryd rhan roi cyhoeddusrwydd iddo. Bydd hyn yn sicrhau bod y cyhoedd ac yn enwedig y grŵp targed yn ymwybodol o'r cynllun a sut y bydd yn gweithio, a hefyd yn annog gweithredwyr tacsis a cherbydau llog preifat nad ydynt wedi ymuno efallai i ystyried cymryd rhan. Gallwch roi cyhoeddusrwydd i'r prosiect drwy ddangos poster fel ym mharagraff 4 uchod, yn ogystal â thrwy ddatganiad i'r wasg i'r papurau newydd lleol ac i'r cyfryngau electronig. Gyda'r prosiect peilot, rhoddwyd manylion y prosiect, a thelerau ac amodau'r cynllun, ar wefan yr awdurdod lleol. Gweler Atodiad 4 am delerau ac amodau defnyddio'r cynllun.

   Cafodd y cynllun hefyd ei hyrwyddo mewn nifer o ddigwyddiadau lle'r oedd y grŵp targed yn debygol o fod yn bresennol. Roedd y rhain yn cynnwys, yn ardal y prosiect peilot, Gŵyl Gwrw Llanelli a Diwrnod Mawr Llanelli, ac yn y clybiau chwaraeon lleol, gan fod y lansiad yn cyd-ddigwydd â dechrau'r tymor rygbi. Efallai y bydd trefnwyr hefyd yn dymuno ystyried lansio eu prosiect yn ffurfiol, a gwahodd y wasg leol iddo. Bydd hyn yn codi proffil y cynllun a hefyd yn rhoi cyfle i aelodau etholedig gael eu cysylltu gyda fo.

Rhedeg y Prosiect

9. Unwaith y mae'r prosiect wedi'i sefydlu, nid oes angen i'r bartneriaeth sy'n ei redeg wneud unrhyw beth. Mae unigolion sy'n dymuno defnyddio tacsis trwyddedig yn anfon y gair 'cab' neu rywbeth tebyg drwy neges destun at y rhif sy'n cael ei ddefnyddio, ac yn derbyn nifer o rifau ffôn gweithredwyr tacsis trwyddedig yn yr ardal lle derbynnir y neges gan y cwmni sy'n rhedeg y prosiect. Yn y prosiect peilot, roedd dewis o 3 rhif ffôn yn cael eu darparu. Lle mae mwy na 3 o weithredwyr tacsis trwyddedig yn yr ardal honno, mae'r cyfrifiadur yn dewis y rhifau ar hap i sicrhau bod pob gweithredwr yn cael chwarae teg. Bydd y cynllun yna'n rhedeg heb fod angen i'r bartneriaeth sy'n ei weithredu wneud dim.

   Lle daw'r awdurdod lleol, fel yr awdurdod trwyddedu, yn ymwybodol bod trwyddedau tacsis trwyddedig wedi eu hatal, neu lle mae gweithredwyr newydd eisiau ymuno â'r cynllun, dylent roi gwybod i'r awdurdod lleol perthnasol er mwyn naill ai dileu neu ychwanegu'r rhifau at y rhestr o weithredwyr.

Gwerthuso'r Cynllun

10. Mae gwerthuso'r cynllun hwn yn syml, gan fod modd mesur ei ddefnydd yn ôl nifer y ceisiadau testun am rifau tacsis trwyddedig sy'n cael eu derbyn gan y cwmni sy'n gweithredu'r cynllun. A chymryd bod pawb sy'n derbyn y rhifau ffôn yn ffonio un o'r cwmnïau tacsis ac yn defnyddio tacsi trwyddedig, gellir edrych ar bob cais fel un sy'n atal defnydd posibl o gerbyd minicab heb ei drwyddedu. Er efallai na fyddai hyn yn digwydd, am amryw o resymau, e.e. efallai y bydd rhywun sy'n archebu cerbyd trwyddedig ar ôl derbyn rhif drwy neges destun yn penderfynu defnyddio tacsi heb ei drwyddedu yn lle aros am y cerbyd trwyddedig, gellir tybio y bydd llai o ddefnyddio ar gerbydau minicab heb eu trwyddedu, a hefyd y bydd nifer y tacsis heb eu trwyddedu yn lleihau oherwydd bydd llai o alw amdanynt.

    Awgrymir bod cryn haeddiant mewn cael partneriaid y cynllun i hyrwyddo'r manylion ynghylch sut i'w ddefnyddio, oherwydd bydd mwy o hyder yn y cynllun ymhlith y grŵp targed os ydynt yn ffyddiog y bydd yn gweithio, a hefyd gwell cyfranogiad gan weithredwyr cerbydau os ydynt yn teimlo y byddant yn ennill rhywfaint o fusnes o gymryd rhan.

Atodiad 1

Copi o'r poster a ddefnyddiwyd gan y Prosiect Peilot

Atodiad 2

Copi o'r Mat Cwrw a ddefnyddiwyd gan y Prosiect Peilot

Atodiad 3

Mr Justin Power

JHP/IMMW (0845) 658 0445

24ain Gorffennaf 2006.

Annwyl Syr / Fadam,

YNGHYLCH: PROSIECT CAB DIOGEL Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin

Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin yn ceisio gwneud Sir Gâr yn ardal fwy diogel fyth i fyw a gweithio ynddi ac i ymweld â hi.

Mae'r Bartneriaeth yn cael ei chadeirio gan Brif Weithredwr y Cyngor ac yn cynnwys uwch aelodau o Heddlu Dyfed-Powys ac Awdurdod yr Heddlu, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gwasanaeth Prawf Dyfed-Powys a'r Timau Troseddau Ieuenctid ynghyd â Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin.

Mae'r Bartneriaeth yn gobeithio treialu'r prosiect CAB Diogel, sef y cam nesaf yn dilyn ymgyrchoedd diweddar y Cyngor yn rhybuddio preswylwyr Sir Gâr ynghylch peryglon defnyddio tacsis anghyfreithlon. Mae'r ymgyrchoedd hyn wedi dod yn sgîl adroddiadau o ymosodiadau difrifol ar bobl gan yrwyr heb eu trwyddedu mewn rhannau eraill o'r wlad. Digwyddodd rhai o'r ymosodiadau wrth i aelodau o'r cyhoedd fethu â chael gafael ar dacsi trwyddedig, neu am na wyddent rif ffôn tacsi yn yr ardal honno, gan felly gychwyn cerdded adref yn hwyr y nos neu i fynd i chwilio am dacsi.

Mae'r prosiect **CAB DIOGEL** yn wasanaeth a fydd yn cynnig gwasanaeth testun i'r cyhoedd fel y medrant dderbyn rhifau ffôn tacsis neu gerbydau llog preifat sydd wedi eu trwyddedu'n lleol, sy'n cael eu hanfon i'w ffonau symudol yn yr ardal lle maen nhw'n anfon negeseuon testun ohoni.

Mae'r prosiect yn darparu gwasanaeth testun arloesol fel bod pobl yn gallu derbyn rhifau tacsis trwyddedig lleol ar eu ffonau symudol drwy ffonio rhif cod (5 digid) ac anfon neges destun gyda'r gair **CAB** er enghraifft.

Mae'r system yn gweithio drwy leoli'r person a anfonodd y neges destun drwy signal eu ffôn symudol ac anfon ymateb testun yn awtomatig atynt gyda rhifau ffôn y cwmnïau tacsi agosaf atynt (sy'n cael eu dewis ar hap).

Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gâr yn ariannu'r gwasanaeth ac felly ni fydd **unrhyw gost** i'r Busnes Tacsi / Cerbyd Llog Preifat Trwyddedig yn Sir Gâr.

Rydym yn gobeithio lansio'r gwasanaeth erbyn diwedd Awst 2006. Os ydych eisiau i'ch busnes Tacsi neu Gerbyd Llog Preifat gael ei gynnwys yn y gwasanaeth, yna llenwch y daflen wybodaeth amgaeëdig a'i dychwelyd atom yn yr amlen barod erbyn **4 Awst 2006.**

Os oes angen mwy o wybodaeth am y mater hwn arnoch, cofiwch gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir,

Mr Justin Power
Uwch Swyddog Trwyddedu

Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gâr
Carmarthenshire Community Safety Partnership

Atodiaid 4

Telerau ac Amodau

CAB DIOGEL

DATGANIAD PREIFATRWYDD FFONAU SYMUDOL AR GYFER CYNGOR SIR GAERFYRDDIN

Fel bod Cyngor Sir Gaerfyrddin yn gallu darparu'r gwasanaeth hwn ichi, sy'n golygu bod angen inni fedru darganfod lle'r ydych i anfon gwybodaeth berthnasol atoch (rhifau ffôn ac enwau cwmnïau tacsi trwyddedig) ar sail y lleoliad hwnnw, byddwn yn cysylltu â gweithredwr eich rhwydwaith ffonau symudol i ofyn am eich lleoliad yn fras ar sail cyfeirnod grid y mast sy'n cael ei ddefnyddio neu a ddefnyddiwyd ddiwethaf i gysylltu eich ffôn i'ch rhwydwaith. Yr unig wybodaeth a ofynnwn amdani yw o ble'r ydych yn anfon y neges destun, a rhif eich ffôn symudol, a byddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth yma fel yr eglurir yn y telerau a'r amodau hyn, ac yn ein polisi preifatrwydd yn http://www.carmarthenshire.gov.uk/eng/index.asp?locID=7130&docID=-1

Drwy anfon Neges Destun Fer (SMS) at Gyngor Sir Gaerfyrddin, rydych yn caniatáu inni ddefnyddio eich gwybodaeth fel a ddisgrifiwyd uchod.

Mae perthynas Cyngor Sir Gaerfyrddin â'i gwsmeriaid yn un o ymddiriedaeth. Rydym yn parchu cyfrinachedd a phreifatrwydd unrhyw wybodaeth a roddwch inni. Felly, mae'n bolisi gan Gyngor Sir Gaerfyrddin i beidio â datgelu unrhyw ddata personol, ariannol neu weithredol a roddwch inni i unrhyw drydydd parti, heb eich caniatâd. Gallwch ddarllen y polisïau preifatrwydd sydd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin, yn http://www.carmarthenshire.gov.uk/eng/index.asp?locID=7130&docID=-1

Ni fydd gwybodaeth bersonol a roddwch inni yn cael ei dosbarthu y tu allan i Gyngor Sir Gaerfyrddin ar wahân i fanylion sy'n angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaeth ichi. Gall Cyngor Sir Gaerfyrddin ddatgelu data personol i'r DVLA, yr heddlu ac i asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith os yw'r rhain yn gofyn amdano, er mwyn atal a chanfod troseddu a lle mae'n gyfreithiol ofynnol inni wneud hynny.

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi derbyn hysbysiadau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, ac yn cydymffurfio â'i ymrwymiadau o dani. Mae gennych hawl i ofyn am gael copi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch yn ein cofnodion, am dâl bychan. Mae gennych hefyd hawl i ofyn inni gywiro unrhyw wybodaeth anghywir. Os hoffech dderbyn copi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch, gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd y telerau a'r amodau hyn.

DIOGELWCH

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn ymrwymedig i sicrhau bod eich gwybodaeth yn ddiogel. Er mwyn atal mynediad neu ddatgeliad diawdurdod, mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn dilyn gweithdrefnau ffisegol, electronig a rheolaethol i ddiogelu a chadw'r wybodaeth a gesglir ar-lein yn saff.

YMWRTHODIAD

Nid yw Cyngor Sir Gaerfyrddin yn gwarantu y bydd y gwasanaeth i ddarparu gwybodaeth neu wasanaeth i ffôn symudol yn brydlon, yn sicr, yn rhydd o wallau neu na fydd rhywun yn torri ar ei draws. Cofiwch fod statws cwmnïau tacsis trwyddedig yn gallu newid o bryd i'w gilydd. Mae hyn yn golygu nad yw rhai cwmnïau a drwyddedwyd yn flaenorol efallai wedi eu trwyddedu mwyach, a gall eu manylion cyswllt hefyd newid. Felly, ni all Cyngor Sir Gaerfyrddin warantu bod y wybodaeth a roddir am gwmnïau tacsis trwyddedig yn gywir ar neu ar ôl y dyddiad y'i rhoddir. Wrth ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir gan Gyngor Sir Gaerfyrddin ar ôl y dyddiad y darperir hi, cynghorir chi i gadarnhau statws a manylion cyswllt y cwmnïau tacsi.

ATEBOLRWYDD CYFYNGEDIG

Oherwydd natur gwasanaethau ffonau symudol ac yng ngoleuni'r ymwrthodiad uchod, nid yw Cyngor Sir Gaerfyrddin yn atebol ichi ond am golledion sy'n digwydd os bydd Cyngor Sir Gaerfyrddin yn torri'r telerau a'r amodau hyn. Nid yw Cyngor Sir Gaerfyrddin yn gyfrifol ichi am unrhyw golledion sy'n digwydd ichi nad oeddent yn ganlyniad rhagweladwy o dorri'r telerau a'r amodau hyn gan Gyngor Sir Gaerfyrddin, er enghraifft os na allech chithau na ninnau fod wedi rhagweld y colledion. Nid yw atebolrwydd Cyngor Sir Gaerfyrddin ichi, mewn unrhyw amgylchiadau, yn cynnwys unrhyw golledion busnes y byddwch efallai'n eu dioddef, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i golledion data, colledion elw neu darfu ar eich busnes.

Nid yw Cyngor Sir Gaerfyrddin yn eithrio na'n cyfyngu ei atebolrwydd am:

- farwolaeth neu anaf personol oherwydd esgeulustod ar ei ran;
- twyll; neu
- unrhyw fater a allai fod yn anghyfreithlon inni geisio eithrio ein hatebolrwydd amdano.

Y GOST

Bydd y gwasanaeth hwn yn costio 50c am bob neges SMS, yn ychwanegol at y gyfradd safonol a godir gan weithredwr eich rhwydwaith. Mae'r gwasanaeth yn gweithio ar Vodafone, Orange, O2 a T-Mobile.

Nid yw'r gwasanaeth yn gweithio ar 3 a Virgin ar hyn o bryd. Ni chodir 50c am geisiadau testun gan gwsmeriaid sy'n defnyddio'r darparwyr gwasanaeth hyn. Byddant yn derbyn neges wybodaeth ddi-dâl am eu cais.

MANYLION CYSWLLT

Cyngor Sir Gaerfyrddin
Rhif ffôn:
0845 658 0445
E-bost: SCHLicensing@carmarthenshire.gov.uk
Drwy'r post:
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Adran Drwyddedu
Gofal Cymdeithasol a Thai
3 Heol Spilman
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 1LE